


JONES, WILLIAM ('Gwrgant'; 1803 - 1886), llenor ac eisteddfodwr



Enw: William Jones
Ffugenw: Gwrgant
Dyddiad geni: 1803
Dyddiad marw: 1886
Rhiant: Margaret Jones
Rhiant: Robert Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor ac eisteddfodwr
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Helen Myfanwy Ramage

Ganwyd yn Brwynog ym mhlwyf Llanfihangel, Sir Drefaldwyn, mab Robert Jones, saer maen, a Margaret ei wraig. Wedi cyfnod o addysg yn ysgol y pentref, Meifod, cafodd ei rwymo gyda chyfreithiwr yn Llanfyllin. Symudodd oddi yno i Lanelwy ac wedyn i Lundain, lle y bu mewn busnes ar raddfa helaeth.

Ysgrifennai i gynodolion Cymreig o dan yr enw ' Gwilym Brwynog, a chyhoeddodd lyfr, *Gwreiddiau yr Iaith Gymraeg*. Yr oedd yn feirniad poblogaidd mewn eisteddfodau; efe a ddarllenodd, dros y ddau feirniad arall, y feirniadaeth yn eisteddfod Rhuddlan, 1850, a ddyfarnodd y wobr am farddoniaeth yn y mesurau rhyddion i **Evan Evans** ('Ieuan Glan Geirionydd').

Trwy gydol ei oes yn Llundain cymerai ran flaenllaw ym mywyd Cymreig y brifddinas; yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion, yn gadeirydd cangen Llundain y Cambrian Institution ac yn aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion. Bu'n llyfrgellydd y Cymmrodorion yn ystod eu hail gyfnod, yr oedd yn bresennol pan ddechreuwyd y trydydd cyfnod 30 mlynedd yn ddiweddarach, a bu'n gwasanaethu'r gymdeithas fel is-lywydd hyd ei farwolaeth yn 1886.

Awdur

Helen Myfanwy Ramage, (1992)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Gwaith Talhaiarn (Llundain 1855), i, 435

Cambrian Journal (1854â€“64), 1856, 76

Y Cymmrodor, i, 375

Y Cymmrodor, 1951

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734668

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Ramage, H. M., (1953). JONES, WILLIAM ('Gwrgant '; 1803 - 1886), llenor ac eisteddfodwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-WIL-1803>

Clipwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

